**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
—
**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

At Gadeiryddion:
Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol; Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith; Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus; Y Pwyllgor Cyllid; Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad; Y Pwyllgor Deisebau; Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

10 Awst 2021

Annwyl Gadeiryddion,

Cydweithio rhwng pwyllgorau yn ystod y Chweched Senedd

Fel pwyllgor y Senedd sy'n gyfrifol am graffu ar bob agwedd ar gydraddoldeb, cyfiawnder cymdeithasol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae ein cylch gorchwyl eang yn cynnwys nifer o faterion trawsbynciol pwysig sydd o ddiddordeb i'ch pwyllgor chi ac sy'n cynnig cyfleoedd posibl i gydweithio.

Ar ran y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, hoffwn eich gwahodd i drafod y cyfleoedd hyn i gydweithio fel rhan o unrhyw drafodaethau rydych yn eu cael ar gynlluniau strategol eich pwyllgor yn nhymor yr hydref. Os oes gan eich pwyllgor unrhyw syniadau ar gyfer gwaith ar y cyd yr hoffech eu trafod, mae croeso i chi gysylltu â'r tîm clercio.

Byddaf yn anfon llythyr tebyg at Gadeiryddion pwyllgorau eraill y Senedd.

Yn gywir,



Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.